# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO
# DYDD IAU, 15 IONAWR 2026

**Presenoldeb:** Cadeirydd: Carys Edwards
Is-gadeirydd: Rhys Parry

**Cynghorwyr:** Menna Baines, Elwyn Jones, Edgar Wyn Owen, Geraint Parry, Arwyn Herald Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Rowlands, Angela Russell, Meryl Roberts, Ioan Thomas ac Elfed Wyn ap Elwyn

**Aelodau Lleyg**: Eifion Jones, Dewi Lewis, Peter Barnes a Paul Millar-Mills

**Swyddogion:** Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau), Luned Fôn (Rheolwr Archwilio), Caren Rees Jones (Cyfrifydd Grŵp - Cyfalaf a Rheolaeth), David Lloyd Williams (Cyfrifydd Grŵp), Nel Povey ac Alaw Jones (Cynllun Yfory - Hyfforddai Proffesiynol Cyllid a Chyfrifeg), Eleri Jones (Uwch Swyddog Gweithredol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:** Cyng. Huw Wyn Jones (Aelod Cabinet Cyllid) ac Yvonne Thomas (Archwilio Cymru)

Eitem 6: Cyng. Nia Jeffreys (Arweinydd y Cyngor), Cyng. Menna Trenholme (Dirprwy Arweinydd y Cyngor / Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd), Cyng. Dewi Jones (Aelod Cabinet Addysg), Dafydd Gibbard (Prif weithredwr), Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol a Swyddog Monitro), Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg), Alison Halliday (Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Ysgolion), Llion Williams (Arweinydd Ansawdd Diogelu a Llesiant), Ian Jones (Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol), Catrin Love (Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Corfforaethol), Ffion Mai Jones (Uwch Reolwr Gweithredol) a Lois Owens (Uwch Swyddog Gweithredol)

Eitem 10: Siân Pugh (Pennaeth Cynorthwyol Cyllid - Cynaliadwyedd a Datblygiadau) a Bleddyn Jones (Rheolwr Trethi)

Eitem 11: Lora Gwawr (Archwilio Cymru) a Dewi Wyn Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

**4. COFNODION**

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 13 o Dachwedd 2025 fel rhai cywir.

**5. GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR**

Cyflwynwyd adroddiad oedd yn rhoi amlinelliad o sut mae adrannau'r Cyngor wedi ymateb i benderfyniadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel bod modd i'r Aelodau gael sicrwydd bod eu penderfyniadau yn cael sylw. Nodwyd bod yr adroddiad yn rhoi cyfle i'r Aelodau ystyried y penderfyniad a wnaed gyda bwriad o ddileu'r eitem / penderfyniad pan fydd y weithred wedi cwblhau.

Diolchwyd am yr adroddiad

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn cynnwys yr adroddiad**

Nodyn:
Derbyn diweddariad ar eitemau 5/9/24 (cynnal sesiwn gwybodaeth ar y maes digartrefedd) a 10/10/24 (diweddariad ar argymhellion Archwiliad Gofal Brys: Llif Allan o'r Ysbyty) erbyn y cyfarfod nesaf

**6. CYNLLUN YMATEB I'R ADRODDIAD CYFIAWNDER TRWY EIN DEWRDER**

Diolchodd Arweinydd y Cyngor, y Cyng. Nia Jeffreys am y gwahoddiad i gyflwyno cynllun ymateb y Cyngor i'r Adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder.

Fel Arweinydd, ymddiheurodd yn ddiffuant i'r dioddefwyr a phawb sydd wedi eu heffeithio gan droseddau erchyll cyn Bennaeth Ysgol Friars. Ni chafodd lleisiau'r plant eu clywed a nododd yn glir bod eu profiadau a'u lleisiau yn bwysig iddi. Ategodd mai geiriau gwag fyddai ymddiheuro heb weithrediad, a'r deyrnged fwyaf gellid ei roi i ddewrder y dioddefwyr yw sicrhad ac addewid o newid; nod y cynllun yw sicrhau na fydd methiannau o'r fath yn digwydd eto yng Ngwynedd a bod yr heriau sydd yn wynebu'r Cyngor i newid trefniadau a diwylliant yn hanfodol i fater mor ddifrifol. Nodwyd y byddai'n gwerthfawrogi sylwadau'r pwyllgor yng nghyd-destun monitro a rheoli risg y cynllun; bod tryloywder yn angenrheidiol ac yn adfer hyder ymysg y cyhoedd.

Eglurwyd bod y Cynllun Ymateb yn ddogfen fyw, gyhoeddus ac y bydd cofnodion cyfarfodydd Bwrdd Rhaglen y Cynllun Ymateb yn adrodd ar y cynnydd fydd yn digwydd.

Diolchodd am barodrwydd y Pwyllgor i drafod pwnc mor anodd, ond y byddai eu cyfraniad yn arwain at wella trefniadau diogelu'r Cyngor er mwyn sicrhau na fydd hyn yn digwydd eto. Mynegodd bod diogelu a gwarchod plant rhag niwed yn gyfrifoldeb ar bawb. Diolchodd am y cydweithio arbennig sydd wedi digwydd hyd yma gyda Sally Holland (Cadeirydd Bwrdd Rhaglen y Cynllun Ymateb), pawb sy'n ymwneud â'r Cynllun, gyda gwaith gwych gan sawl Adran o'r Cyngor yn rhan o'r ymateb. Er na all un Gwasanaeth, un Adran, un grŵp gwleidyddol neu

unigolyn gyflawni hyn ei hun, pwysleisiodd yr angen i gydweithio ar draws Pwyllgorau, ar draws Adrannau ac ar draws gwahaniaethau gwleidyddol, fel y gellid gwneud cynnydd gwirioneddol ac amserol mewn maes hanfodol. O ganlyniad, bydd y broses o graffu nid yn unig yn dal y Cyngor i gyfrif, ond yn cyfrannu at lunio dyfodol mwy diogel i blant a phobl ifanc y Sir.

Awgrymodd ddychwelyd i adrodd ar gynnydd y Cynllun ymhen 6 mis i flwyddyn, pe bai'r Pwyllgor yn dymuno hynny.

Cyflwynodd y Prif Weithredwr, fanylion ac ymarferoldeb y Cynllun Ymateb. Amlygodd bod y Cynllun Ymateb gwreiddiol wedi ei fabwysiadu gan y Cabinet (Ionawr 2025) a'i fod, fel unrhyw ddogfen fyw, wedi esblygu ers hynny. Ers cyhoeddi Adroddiad Cyfiawnder Trwy ein Dewrder (Tachwedd 2025) diwygiwyd y Cynllun i fynd i'r afael â'r themâu a'r argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad. Bydd sylwadau / ystyriaethau, gan ymgynghorai eraill, gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hwn, Pwyllgor Arbennig Craffu Addysg ac Economi, Pwyllgor Arbennig Craffu Gofal a chyfarfod Cyngor Arbennig, yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Ymateb terfynol fydd i'w gyflwyno i'r Cabinet yn ffurfiol Mawrth 2026.

Wrth fynd i'r afael a blaenoriaethau'r cynllun, amlygwyd mewn sefyllfaoedd lle rhaid aros i eraill weithredu bod trefniadau interim mewn lle. Adroddwyd bod saith prif thema o fewn y Cynllun Ymateb sydd yn cyd-fynd gyda'r themâu'r adroddiad a bod swyddog penodol yn arwain ar bob thema.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Nododd y Cadeirydd mai dyletswydd y Pwyllgor oedd ystyried bod y Cynllun Ymateb yn briodol a chyfiawn, bod y prif flaenoriaethau yn cael eu gweithredu, a rhoi cyngor ar ymdrin â dibyniaethau.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Bod yr adroddiad yn swmpus, ac efallai ar rai adegau yn rhy eiriog. Er hynny, canmoliaeth i'r rhai hynny oedd wedi cydlynu'r gwaith - gwaith sylweddol, proffesiynol
- Croesawu bod y Cynllun Ymateb yn cael ei drafod mewn sawl fforwm
- Bod angen crynodeb / blaen dudalen syml a phendant o'r prif bwyntiau gweithredu
- Er derbyn yr angen i ddiogelu plant mewn ysgolion, bod rhai diogelu plant ymhob sefyllfa
- Ffrwd gwaith 3: Cyfeiriad at hyfforddiant 'grooming' (3.4) - angen addasu pwyslais yr hyfforddiant / teitl yr hyfforddiant i gynnwys cydnabyddiaeth o atal meithrin perthynas amhriodol
- Cyfeiriad at adroddiad bar gyfreithwraig 'Ymchwiliad i Ddigwyddiadau 2019 sydd wedi bod yn destun sylw gan y wasg' - angen mwy o gyd-destun i'r ymchwiliad annibynnol a gwblhawyd a beth oedd y penderfyniad dros beidio rhannu'r adroddiad / casgliadau ymysg yr atodiadau? A oedd y bar gyfreithwraig yn rhan o'r cwmni oedd yn rhoi cyngor cyfreithiol i'r Cyngor? Naratif paragraff 2.5 yn aneglur.
- Croesawu manylder y Cynllun Ymateb i'r hyn sydd yn mynd i ddigwydd, ond angen adfyfyrio ar yr hyn sydd wedi digwydd. Angen datgelu methiannau staff o'r bôn i'r brig a chynnal trafodaethau gyda'r rhai hynny oedd yn greiddiol i'r methiannau. Angen sicrhau bod proses wedi ei dilyn i ddeall cyd-destun yr hyn aeth o le.
- Yng nghyd-destun 'cyfleoedd a gollwyd' a 'dyletswydd broffesiynol', er derbyn

nad oes modd trafod achosion penodol, bod angen sicrwydd bod trefniadau disgyblu mewn lle, amserlen ar gyfer y broses disgyblu a modd o adrodd ar y weithred; bod hyn yn deg i'r teuluoedd hynny sydd wedi cael eu heffeithio.
- Croesawu bod y cynllun yn rhoi pwyslais ar drefniadau canu'r gloch a diogleu (safeguarding) – angen bod ar ein gorau yn y meysydd hyn. Er yn croesawu adolygiadau i'r polisïau, angen diweddariad ar y gwaith, yr amserlen a'r modd maent yn cael eu mabwysiadu
- Bod rhaid i brosesau fod yn fyr, yn fanwl gywir ac effeithiol ac y dylid gwreiddio gweithdrefnau diwylliant ac nid ymateb i ymarfer ticio blwch
- Croesawu bod trefniadau gyda'r Heddlu a'r Bwrdd Iechyd yn cael eu tynhau
- Bod y Pwyllgor yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar y camau sydd wedi eu gweithredu neu sydd yn cael eu hystyried fel ymateb addas a phriodol â'r sefyllfa

Mewn ymateb i sylw bod yr ymdrech i edrych ar y gyfundrefn o'r newydd o bosib yn peri newid gormodol, yn hytrach na chanolbwyntio ar sicrhau bod staff yn dilyn polisïau a phrosesau, ac a'i methiant cyfundrefnol oedd yma ynteu fethiant unigolion, nodwyd bod yr adroddiad yn adnabod yr angen i newid a gwella nifer o drefniadau ac felly'r Cyngor yn cymryd y cyfle i edrych ar yr holl drefniadau. Ategwyd bod rhai systemau angen eu gwreiddio yn well o fewn trefniadau Cyngor, ond bod rhai o'r argymhellion yn gofyn am arweiniad cenedlaethol megis newid polisïau a gweithdrefnau, hyfforddiant, ymddygiadau a chyfrifoldeb dros weithredu; Bod yr ymateb yn cynnig mwy na newid proses - yn gosod uchelgais o newid diwylliant.

Mewn ymateb i sylw bod cyfeiriadau helaeth at Estyn er bod yr arolwg, a gynhaliwyd Mehefin 2023 wedi bod yn ddiffygiol a chamarweiniol ynglŷn â threfniadau diogelu, ac nad oedd cydnabyddiaeth o'r diffygion hynny yn amlwg yn yr adroddiad, cytunwyd y byddai modd ychwanegu'r wybodaeth i'r adroddiad terfynol fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet. Ategodd y Pennaeth Addysg y byddai yn codi'r mater gydag Estyn, ac yn amlygu bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio angen derbyn cydnabyddiaeth gan Estyn bod eu harolwg wedi bod yn gamarweiniol. Byddai hyn yn adfer hyder y cyhoedd mewn adroddiadau Estyn i'r dyfodol.

Gwnaed sylw bod enghreifftiau digonol yn yr hyn a aeth o'i le ond dim rhesymeg 'pam?' (ffactorau megis Bwriadol? Anfwriadol? Diogi? Perthynas agos? Diwylliant? Diffygion?) ac mewn ymateb i sylw pellach bod rhai elfennau o'r methiannau efallai yn cael eu cuddio tu ôl i brosesau a systemau, ac nad oedd cyfeiriad digonol, ffeithiol yn y Cynllun Ymateb i hyn, nododd y Prif Weithredwr, bod gan y Cyngor ddyletswydd i edrych i mewn i hyn ac fel y daw mwy o dystiolaeth a chasgliadau i'r amlwg, bydd y darlun yn gliriach. Ategodd bod methiannau i systemau a threfniadau yn amlygu methiant, ond anodd yw cynnwys yr elfen ddynol.

Er nad oes pris ar ddiogelwch plentyn, nodwyd mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chostau'r broses, bod costau i ymchwiliadau a chostau ôl-lenwi a chefnogaeth i Ysgol Friars - byddai costau unrhyw newidiadau pellach yn rhan o broses gyllidebu'r Cyngor. Ategwyd bod costau'r broses wedi eu cynnwys ar gofrestr risg y Cyngor ac yng Nghynllun y Cyngor, ac er yn derbyn cyfraniad ariannol gan Llywodraeth Cymru, bod y costau yn tynnu amser staff ac adnoddau o lefydd eraill.

Yng nghyd-destun cyfrifoldebau Llywodraethwyr a'r angen i gysoni safonau, sicrhau hyfforddiant priodol i gyflawni dyletswyddau'r swydd yn effeithiol, sicrhau addasrwydd Cadeirydd Llywodraethwyr i'r swydd ac awgrym i gyfyngu tymor

Llywodraethwyr, nododd yr Aelod Cabinet Addysg, bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad i bryderon trefn llywodraethwyr ysgolion, ac y byddai casgliadau'r adolygiad i'w rannu Gwanwyn 2026. Ategodd bod y drefn yng Nghymru wedi dyddio ac mai pwrpas yr adolygiad oedd edrych ar wahanol gyfrifoldebau Llywodraethwyr. Awgrymwyd hefyd bod angen i Lywodraethwyr Cymunedol cael rôl fwy arwyddocaol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chost achosion llys i'r dyfodol, nododd y Prif Weithredwr nad oedd yn ymwybodol o achosion llys ar hyn o bryd, ond pe bai achos neu hawliad yn codi o'r sefyllfa, yna bod gan y Cyngor yswiriant a chronfa wrth gefn digonol i ymdopi â'r sefyllfa. Ni fydd y costau yn amharu ar gyllidebau refeniw'r Cyngor. Ategodd bod gan y Cyngor haenau o yswiriant ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd ac y byddai modd ymdrin yn briodol a phob achos.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau ac i'r swyddogion am gyflwyno ymatebion.

**PENDERFYNWYD:**
- **Derbyn manylder y Cynllun Ymateb**
- **Yn diolch i'r Swyddogion am eu gwaith ac yn croesawu bod y Cynllun Ymateb yn cael ei drafod mewn sawl fforwm**
- **Bod angen crynodeb / blaen dudalen syml a phendant o'r prif bwyntiau gweithredu**
- **Bod y Pwyllgor yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar y camau sydd wedi eu gweithredu neu sydd yn cael eu hystyried fel ymateb addas a phriodol â'r sefyllfa**
- **Cais gan y Pwyllgor i Estyn gydnabod gwendidau eu hadroddiad ar drefniadau diogelwch y Cyngor, Mehefin 2023**
- **Bod Trefniadau Canu'r Gloch a Threfniadau Diogelu angen bod ymysg y gorau**
    - **croesawu adolygiadau i'r polisïau hyn**
    - **angen diweddariad ar y gwaith, yr amserlen a'r modd maent yn cael eu mabwysiadu**

Nodyn:
Adolygu paragraff olaf 2.5 o'r Cynllun Ymateb: 'Ymchwiliad i Ddigwyddiadau 2019 sydd wedi bod yn destun sylw gan y wasg' – angen mwy o gyd-destun am yr ymchwiliad annibynnol a gwblhawyd a beth oedd y penderfyniad dros beidio rhannu'r adroddiad / casgliadau.
Gosod cyd-destun i ganmoliaeth Estyn i drefniadau diogelu'r Cyngor (Mehefin 2023). Y geiriad fel y mae yn amhriodol o ystyried y methiannau a ddaethpwyd i'r amlwg yn ddiweddarach.

## 7. CYLLIDEB REFENIW 2025/26 – ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2025

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod Cabinet Cyllid yn gofyn i'r pwyllgor graffu'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau. Eglurwyd bod yr adroddiad yn manylu ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw'r Cyngor am 2025/26, a'r rhagolygon tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Gofynnwyd i'r Pwyllgor graffu'r wybodaeth a chynnig sylwadau cyn cyflwyno am gymeradwyaeth y Cabinet Ionawr 20fed 2026.

Yn dilyn adolygiad diwedd Tachwedd nodwyd bod y rhagolygon yn awgrymu gorwariant o £6.5 miliwn gan adrannau'r Cyngor, oedd yn gynnydd bychan o

ragolygon Awst gyda 76% ohono yn y maes gofal oedolion a phlant. Eglurwyd, yn dilyn ymlaen o dueddiad mewn blynyddoedd blaenorol, bod gorwariant sylweddol hefyd yn y maes gwastraff, priffyrdd a bwrdeistrefol, ond tanwariant ar gyllidebau corfforaethol, sy'n golygu fod hynny yn lleihau'r rhagolygon gorwariant yn ei gyfanrwydd i £2.3 miliwn.
Tynnwyd sylw at y prif faterion:

- Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant – rhagolygon diweddaraf yn awgrymu os na fydd newid mewn gweithredu yn ystod y flwyddyn, bydd diffyg cyllidebol o £3miliwm erbyn diwedd y flwyddyn. Bu i werth £3 miliwn o arian parhaol ei ddyrannu i'r maes ar gyfer 2025/26, ond bod gwerth miliwn o arbedion a thoriadau, heb eu cyflawni hyd yma.

  Yng nghyd-destun gwasanaethau pobl hŷn, gwelwyd cynnydd yn y galw am ofal preswyl pobl hŷn a hefyd cynnydd annisgwyl ac anarferol am ofal preswyl oherwydd materion iechyd meddwl; y pwysau ar y ddarpariaeth gofal cartref hefyd yn parhau.

- Adran Plant a Theuluoedd - yn rhagweld diffyg cyllidebol o £1.8 miliwn, gyda meysydd megis lleoliadau all-sirol, a'r ddarpariaeth plant gydag anableddau yn y gwasanaeth Derwen a Hafan y Sêr yn wynebu pwysau.

- Byw'n Iach – dros y blynyddoedd diwethaf, Byw'n Iach wedi derbyn cefnogaeth ariannol flynyddol gan y Cyngor uwchlaw taliad cytundebol y cytundeb darparu, i'w galluogi i gynnal eu gwasanaethau. Adroddwyd bod y gefnogaeth ariannol yn parhau eleni a'r rhagolygon o'r swm gofynnol erbyn diwedd y flwyddyn wedi cynyddu i £295k.

- Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC - rhagwelir diffyg cyllidebol o £492k, gydag arbedion nad ydynt yn cael eu gwireddu yn cyfrannu at y sefyllfa. Gwelwyd lleihad yn y gwaith sydd yn cael ei gomisiynu gan asiantaethau allanol sydd o ganlyniad yn cael effaith negyddol ar incwm gwasanaethau priffyrdd. Yn yr Uned Bwrdeistrefol, amlygwyd bod cyfuniad o ffactorau, oedd yn cynnwys pwysau ychwanegol ar gyllidebau staff glanhau strydoedd a glanhau toiledau cyhoeddus; colledion incwm yn faterion cynnal tiroedd a thoiledau cyhoeddus.

- Adran Amgylchedd – bod diffyg cyllidebol o £685k yn cael ei ragweld, gyda'r tueddiad blynyddol o orwariant yn y maes casglu gwastraff ac ailgylchu yn parhau ac yn gyfrifol am £617k o'r gorwariant.

- Tai ac Eiddo – tuedd o bwysau sylweddol ar y gwasanaeth llety argyfwng yn parhau, gyda rhagolygon gwariant o £6.6 miliwn yn y maes eleni, o gymharu â £6 miliwn y llynedd. Y sefyllfa ariannol yn cynnwys cyllideb ychwanegol o £3m sydd wedi ei ddyrannu o bremiwm treth cyngor a chyllideb un-tro ychwanegol a ddyrannwyd fel rhan o'r drefn bidiau i gynorthwyo gyda'r pwysau ychwanegol. Rhagwelir y bydd yr adran yn ei gyfanrwydd yn gorwario £248k.

- Corfforaethol – tanwariant o £4.2 miliwn ar nifer o benawdau corfforaethol oedd yn cynnwys costau cyfalaf, dychwelyd cyllidebau a bidiau a derbyniad grant; gwelwyd hefyd gynnyrch treth ychwanegol.

Ategwyd, yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol 2024/25, adolygwyd Incwm Treth Cyngor a'r Premiwm sydd yn deillio o'r dreth ar ail gartrefi ac eiddo gwag. Y

canlyniad yw bod £2 filiwn sy'n berthnasol i Bremiwm Treth Cyngor 2024/25 i'w drosglwyddo o'r Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol i'r Gronfa Premiwm Treth Cyngor.

Diolchwyd am yr adroddiad:

Mewn ymateb i sylw bod £0.5 miliwn o ddiffyg yn y gyllideb, er bod argraff wedi ei roi bod y gyllideb yn well, nodwyd mai cyfeiriad tuag at y setliad oedd hyn a bod y setliad 'yn well' na'r hyn a ragwelwyd yn Adolygiad Diwedd Awst 2025. Ategwyd, wrth fynd ati i osod cyllideb ar gyfer 2026/27 bydd angen ystyried yr angen tu hwnt i chwyddiant mewn rhai meysydd oherwydd y gwariant.

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd 2025 o'r Gyllideb Refeniw**
- **Nodi sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth.**

## 8. RHAGLEN GYFALAF 2025/26 – ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2025

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod Cabinet Cyllid yn amlygu rhaglen gyfalaf (sefyllfa diwedd Tachwedd 2025) ynghyd a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Gofynnwyd i'r Pwyllgor graffu'r wybodaeth a chynnig sylwadau cyn cyflwyno am gymeradwyaeth y Cabinet 20 Ionawr 2025.

Cyfeiriwyd at ddadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £152 miliwn am y 3 blynedd 2025/26 - 2027/28 ynghyd a'r ffynonellau sydd ar gael i ariannu'r cynnydd net sydd oddeutu £0.8 miliwn ers sefyllfa'r adolygiad diwethaf.

Ategwyd,

- Bod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi £93.7 miliwn yn 2025/26 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £48.2 miliwn (51%) ohono wedi'i ariannu trwy grantiau penodol.
- Bod £6 miliwn ychwanegol o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2025/26 i 2026/27 a 2027/28.
- Bod y prif gynlluniau sydd wedi llithro ers y gyllideb wreiddiol yn cynnwys £4.5 miliwn Cynlluniau Ysgolion (Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ac Eraill), £3.2 miliwn Cynlluniau Cronfa Ffyniant Bro, £2.8 miliwn Cynlluniau Adnewyddu Cerbydau, £1.5 miliwn Cynlluniau Ysgogi'r Economi ac Unedau Diwydiannol a £1.5 miliwn Cynlluniau Gwastraff ac Ailgylchu

Tynnwyd sylw at restr grantiau ychwanegol mae'r Cyngor wedi llwyddo eu denu ers yr adolygiad diwethaf a oedd yn cynnwys, £1miliwn – Grant gan Adran Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) y Deyrnas Unedig tuag at gynlluniau Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr (EPR) am ddeunydd pecynnu; £0.6 miliwn – Grant Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol (TACP) gan Lywodraeth Cymru; £0.3 miliwn – Grant o Gronfa Y Pethau Pwysig gan Lywodraeth Cymru tuag at y cynllun Mwyniant Ein Arfordir a £0.3 miliwn – Grant gan Cyngor Chwaraeon tuag at gaeau synthetig.

Cyfeiriwyd at y wybodaeth am Ddangosyddion Darbodus Cyfalaf y Cyngor gan amlygu, yn unol â'r Côd Darbodus gan CIPFA, bod rhaid adrodd ar y wybodaeth - ategwyd bod y Cyngor wedi cydymffurfio yn llawn gyda pholisi ar fenthyca at ddibenion cyfalaf.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â chynlluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynonellau ariannu, yn benodol *'Ail broffilio'r elfen Prynu i Osod o'r Strategaeth Tai i gyfnod tu hwnt i'r Rhaglen Gyfalaf tair blynedd hwn i gyfnod o amgylchiadau economaidd mwy ffafriol (Adran Tai ac Eiddo)'*, a beth oedd cyd-destun 'amgylchiadau economaidd mwy ffafriol', nodwyd bod cynnydd mewn costau adnoddau adeiladu a graddau llog wedi golygu na ellid ariannu'r cynllun penodol yma, ond bod modd ail ymweld â'r sefyllfa os bydd gostyngiad mewn costau a llog i'r dyfodol.

Mewn ymateb i sylw bod ffigyrau 27/27 a 27/28 yn sylweddol is na ffigyrau 25/26, cadarnhawyd bod hyn oherwydd nad oedd cynlluniau newydd wedi dod ymlaen hyd yma.

Mewn ymateb i sylw bod Cymdeithas Peldroed Cymru wedi buddsoddi mewn Clybiau Peldroed yn y Sir (e.e,Talysarn, Porthmadog a Thywyn) ac oes oedd yr arian yn rhan o Grant Chwaraeon Cymru neu grant ar wahân, nodwyd bod yr holl grantiau a dderbyniwyd ar wahân wedi eu cynnwys, ond os oedd yr arian yn fuddsoddiad diweddar, yna bydd yn cael ei adrodd / gynnwys yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad a chytuno ar yr argymhellion i'r Cabinet eu hystyried (20-01-26)**

## 9. TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid yn gofyn i'r pwyllgor nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt y Trosolwg Arbedion, ac ystyried gwybodaeth i'r Cabinet ei dderbyn (20-01-26) a sylwebu fel bo angen.

Yn adroddiad Cyllideb 2025/26 i'r Cyngor Llawn ar 6 Mawrth 2025, adroddwyd bod arbedion gwerth £3.5 miliwn wedi eu proffilio ar gyfer cyllideb 2025/26 sydd yn gyfuniad o werth £100k wedi eu cymeradwyo o'r newydd yn 2025 a £3.4 miliwn oedd wedi eu cymeradwyo mewn blynyddoedd blaenorol. Atgoffwyd yr Aelodau, fel sydd wedi ei adrodd yn gyson yn y Pwyllgor, bod trafferthion gwireddu arbedion mewn rhai meysydd.

Ategodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol,

- Nodwyd bod 98% o'r arbedion hanesyddol wedi eu gwireddu sef £33.8 miliwn o'r £34.3 miliwn o arbedion, bellach wedi eu gwireddu. Wrth fanylu ar y cynlluniau sydd yn parhau heb eu gwireddu (gwerth £590 o filoedd), bod y mwyafrif ohonynt yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant.
- O'r cynlluniau arbedion newydd gwerth £15.6 miliwn, adroddwyd bod 81% o'r arbedion eisoes wedi eu gwireddu a 3% pellach ar drac i gyflawni'n amserol; bod risgiau i wireddu'r arbedion yn amlwg mewn rhai meysydd gyda'r prif rai yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Amgylchedd.

Yn dilyn cyhoeddiad yn Rhagfyr 2025 bod llawr o 4.1% ar gyfer setliad ariannol i Lywodraeth Leol, fyddai'n golygu nad oedd brys i'r Cyngor weithredu arbedion ar gyfer 2026/27, byddai angen parhau i adnabod arbedion ar gyfer blynyddoedd dilynol sy'n debygol o fod yn heriol.

Wrth grynhoi'r darlun, adroddwyd bod £47 miliwn o arbedion wedi eu gwireddu sydd yn 93% o'r £50 miliwn gofynnol dros y cyfnod. Rhagwelwyd y bydd 1% pellach yn cael ei wireddu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, ond y byddai oediad a rhai risgiau i gyflawni'r cynlluniau sydd yn weddill.

Diolchwyd am yr adroddiad trylwyr

Derbyniwyd bod 98% o gynlluniau arbedion hanesyddol 2015/16 - 2025/26 (yn mynd yn ôl dros 10 mlynedd) wedi eu gwireddu, ond dim ond 81% o gynlluniau arbedion newydd 2023/24 i 2025/26 sydd wedi ei gwireddu gyda 23 o gynlluniau wedi llithro neu gyda risg i gyflawni'r arbediad. Er hynny, awgrymwyd i'r Gwasanaethau Canolog ystyried gynnig cymorth wedi ei dargedu ar gynlluniau nad yw'r Adrannau yn gallu eu gwireddu.

Bod risgiau i'r cyhoedd ac i'r Cyngor drwy geisio arbedion sydd ddim ar gael, yn enwedig os yw'r galw am wasanaethau yn cynyddu. Awgrymwyd bod asesiad risg trylwyr o'r peryglon o doriadau yn cael ei gynnal ar bob cynllun. Mewn ymateb, mynegodd Aelod Cabinet Cyllid bod y sefyllfa o ganfod toriadau yn mynd yn anoddach a'r effeithiau i wasanaethau trigolion y Sir yn fwy amlwg. Ategodd y Pennaeth Cyllid mai anodd yw darganfod arbedion ac felly bod trefniadau amgen mewn lle. Wrth i'r Adran Cyllid adolygu a thrafod cynlluniau gydag Adrannau a dod i gasgliad nad yw'r cynllun gwreiddiol yn hyfyw, bydd rhaid ystyried cynllun amgen.

Mewn ymateb i gwestiwn, a yw'r sefyllfa yn cael effaith ar wasanaethau statudol ac o ganlyniad yn agosáu at sefyllfa o orfod gwrthod gwasanaethau, nodwyd, er enghraifft bod gwaith megis Llechen Lân yn mynd i'r afael â phwysau tebygol ar y gwasanaethau, ac yn mabwysiadu cyfeiriad strategol a chynllun gweithredu fyddai'n lliniaru problemau i'r dyfodol. O ganlynaid i'r gwaith ymchwil, adroddwyd, bod mwyafrif helaeth o arian ychwanegol yn cael ei gyfeirio at y maes gofal i gydnabod y pwysau ychwanegol yma. Roedd y Pennaeth Cyllid yn hyderus na fydd cynlluniau arbedion newydd yn cael eu cyflwyno, ac nid oedd yn rhagweld y byddant y gorfod torri ar gynigion sydd yn cael eu cynnig i drigolion.

Wrth ymateb i gwestiwn ynglŷn ag Adrannau yn darparu rhagolwg gorwariant blynyddol a chadw cofrestr risg fel nad ydynt yn gorwario, nodwyd, er nad oedd cynllun busnes penodol yn cael ei gyflwyno i'r Adran Gyllid, bod yr Uned Cyfrifeg yn edrych ar sefyllfaoedd staffio Adrannau ac os byddai angen gweithredu unrhyw newid bydd rhaid i'r Adran berthnasol gwblhau ffurflen newid strwythur fel modd i'r Uned Gyfrifeg a'r Uned Adnoddau Dynol sicrhau bod arian ar gael cyn cymeradwyo. Ategwyd mai cyfrifoldeb deilydd y gyllideb yw bod gwariant o fewn eu cyllideb ac y bydd angen cyflwyno cais am fwy o arian os na fydd hyn yn bosib. Mewn ymateb i sylw ategol bod rhaid cynllunio ymlaen llaw a sicrhau bod modd ariannu cynlluniau, nodwyd bod ceisiadau grant yn cael ei gyflwyno drwy'r Adran Cyllid a bod cyfrifydd yn sicrhau bod rheolaeth dros yr adnoddau.

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn yr adroddiad**
- **Nodi'r cynnydd, y sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt Trosolwg Arbedion**

Nodyn /Awgrym
Cynnig cefnogaeth wedi ei dargedu ar gynlluniau nad yw'r Adrannau yn gallu eu gwireddu

## 10. POLISI LLEIHAU TRETH CYNGOR O DAN ADRAN 13A(1)(C) O DDEDDF CYLLID LLYWODRAETH LEOL 1992

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod Cabinet Cyllid mewn ymateb i gais gan y Pwyllgor yn dilyn trafodaeth a gafwyd ym mhwyllgor 13 Tachwedd 2025 ar Gyfraddau Casglu Treth Cyngor. Amlygodd y Pennaeth Cyllid bod y Cabinet wedi cymeradwyo'r Polisi (11.11.25) ac yn unol â gweithdrefnau'r Cyngor, daeth yn weithredol ar 26.11.25. Datganwyd bod Adran 13A(1)(c) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn rhoi pwerau disgresiwn ychwanegol i'r Cyngor leihau swm y dreth Cyngor sy'n ddaliadwy ar gyfer unigolion neu ddosbarthiadau o drethdalwyr.

Amlygwyd bod y Cyngor yn defnyddio Adran 13A o Ddeddf 1992 fel modd o gyflwyno eithriadau lleol, dewisol mewn achosion cyfyng iawn a cyn cymeradwyo'r polisi, y Cabinet yn unig oedd â'r hawl i wneud y penderfyniadau hyn. Yn dilyn newidiadau mewn Deddfwriaeth a chyflwyno premiwm bu i'r sefyllfa amlygu'r angen am bolisi fyddai'n rhoi hawl i swyddogion ymdrin â cheisiadau am ostyngiadau (sefyllfaoedd eithriadol), heb fynd drwy'r Cabinet. Yn ychwanegol lluniwyd canllawiau gweithredu, ac yn unol â chymeradwyaeth y Cabinet, bod panel yn cael ei sefydlu i ystyried y ceisiadau fel modd o gael cysondeb mewn penderfyniadau. Byddai'r panel yn cynnwys Aelod Cabinet Cyllid, Pennaeth Cyllid (neu Bennaeth Cynorthwyol), a Rheolwr Trethi gyda Chyfarwyddwr Corfforaethol a Swyddog Monitro yn cael gwahoddiad i arsylwi a chynghori. Ategwyd bod pump cyfarfod wedi eu trefnu ar gyfer 2026 gyda'r hyblygrwydd i gyfarfod yn amlach os bydd angen. Adroddwyd bod Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar y polisi, a all arwain at addasu rhai o'r eithriadau statudol. Nodwyd y bydd y Polisi yn cael ei gadw o dan adolygiad parhaus, a'i addasu wrth i unrhyw newidiadau deddfwriaethol neu ddiweddariadau i'r polisi gael eu cyflwyno.

Diolchwyd am yr adroddiad

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol:
- Bod y polisi yn gam bras i'r cyfeiriad cywir
- Bod parodrwydd i addasu'r polisi yn ddibynnol ar amgylchiadau i'w groesawu
- Yng nghyd-destun asesiad effaith, bod angen ystyried yr effaith ar yr iaith a theuluoedd Cymreig sydd yn neud bywoliaeth o dwristiaeth - rhaid amlygu twristiaeth gynaliadwy fel blaenoriaeth
- Yn derbyn y bydd adolygiadau parhaus i'r polisi a bod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar y Premiwm Treth Cyngor yn ddiweddar
- Yn derbyn bod y polisi newydd wedi ei ddatblygu gyda mewnbwn yr Uned Trethi

Mewn ymateb i sylw y byddai risg cyfreithiol o gael premiwm heb bolisi, nododd y Pennaeth Cyllid bod risg cyfreithiol boed polisi neu beidio. Ategodd bod pob polisi yn gytbwys ar sail tegwch a diogelu risg. Petai eithriadau yn codi, neu fod angen edrych ar garfanu penodol, megis llety hunan ddarparu yn methu cyrraedd trothwy 182 diwrnod (o dan y rheolau presennol, rhaid i lety gwyliau gael ei osod

am 182 diwrnod bob blwyddyn i fod yn gymwys ar gyfer ardrethi busnes. Petai'r annedd yn methu'r targed, bydd yr eiddo yn cael ei ailddosbarthu fel ail gartref a threth cyngor yn cael ei godi arno), a heb amod cynllunio yna, bydd posib i'r panel ystyried yr anghymesur - o geisio dangos gwahaniaeth nad yw'n deg, yn rhesymol, nac yn ddisgwyliedig. Bydd rhaid ystyried hefyd os caniatáu'r eithriad, y byddai'r Cyngor yn agored i her ac felly trafodaethau cyfreithiol a mewnbwn gan y Swyddog Monitro ar y panel yn hanfodol.

Mewn ymateb i gwestiwn ategol ynglŷn ag eithriad parhaol, nodwyd y byddai hyn yn bosib os yn unol â'r polisi. Wrth i'r polisi ddatblygu dros amser, os bydd achosion yn codi, neu batrwm yn amlygu ei hun yna bydd modd diweddaru'r polisi.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â rhoi terfyn ar achosion hanesyddol, megis y cyfnod cyn bod ceisiadau am lety gwyliau yn cynnwys amod cynllunio perthnasol, nodwyd bod y sylw yn un pwysig i'w ystyried ac y bydd y panel yn adolygu'r sefyllfa.

Mewn ymateb i'r angen i ystyried risgiau ynghlwm â'r polisi a beth oedd y sefyllfa cyn i'r Cabinet fabwysiadau'r polisi ym mis Tachwedd 2025, nodwyd bod pob penderfyniad cyn mabwysiadu'r polisi yn cael ei gyfeirio at y Cabinet ac o ganlyniad i gynnydd mewn ceisiadau am ostyngiadau ers cyflwyno premiwm a newidiadau mewn deddfwriaeth, mai priodol fyddai sefydlu polisi gyda chanllawiau i swyddogion ymateb i'r sefyllfa mewn modd deg a diogel; bod y polisi yn lleihau risg i'r Cyngor. Mewn ymateb i gwestiwn ategol ynglŷn â'r Cyngor yn derbyn llai o incwm oherwydd effaith y polisi, nodwyd, yn realistig bod yr achosion tebygol yn rai o wir galedi ac felly nid oedd yn rhagweld y byddai'r polisi yn cael effaith ar yr incwm trethi, ond yn fodd rhagweithiol ac o osgoi costau i'r dyfodol.

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol**
- **Croesawu penderfyniad y Cabinet i gymeradwyo'r Polisi**
- **Croesawu bod y Polisi o dan adolygiad parhaus a bod modd i'w addasu wrth i unrhyw newidiadau deddfwriaethol neu newid mewn amgylchiadau gael eu cyflwyno.**

Nodyn / Awgrym
Ail eirio paragraff 3.3 atodiad 2 - Asesiad Effaith Cydraddoldeb i atgyfnerthu'r datganiad 'yn cynorthwyo teuluoedd lleol i aros yn yr ardal ac <u>adnewyddu tai'</u>
Ychwanegu twristiaeth gynaliadwy fel maes blaenoriaeth i baragraff 4.5, Adroddiad Cabinet

## 11. ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU

Amlygodd Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor nad oedd fersiwn Gymraeg o ymateb y Cyngor i'r archwiliad wedi ei gynnwys ar y rhaglen ac felly yn awgrymu gohirio'r drafodaeth tan y cyfarfod nesaf fel bod gan yr Aelodau wybodaeth gyflawn i'w drafod / ystyried.

**PENDERFYNWYD:**

**Gohirio tan gyfarfod 03/02/2026**

## 12. BLAEN RAGLEN Y PWYLLGOR

Amlygodd Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor nad oedd fersiwn Gymraeg o ymateb y Cyngor i'r archwiliad wedi ei gynnwys ar y rhaglen ac felly yn awgrymu gohirio'r drafodaeth tan y cyfarfod nesaf fel bod gan yr Aelodau wybodaeth gyflawn i'w drafod / ystyried.

**PENDERFYNWYD:**

**Gohirio tan gyfarfod 03/02/2026**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 y.b. a daeth i ben am 1.10 y.h.

**CADEIRYDD**